

Taflen Ffeithiau

Syniadau i gynorthwyo i gasglu arian ar gyfer
blaendal a/neu rhent ymlaen llaw a chostau symud

Coed Pella,
Conway Road,
Bae Colwyn.
LL29 7AZ
0300 1240040



Beth yw cynllun bond?

Mae Cynllun Bond Conwy a Sir Ddinbych, yn ceisio cynorthwyo pobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref i dderbyn llety sector preifat drwy warant blaendal yn lle taliad blaendal arian parod i landlord preifat. Ni fydd pob landlord yn derbyn y bond, felly bydd angen gwirio gyda nhw yn gyntaf. Fel arfer rhoddir y bond am ddeuddeg mis; i roi mwy o amser i chi gasglu'r blaendal eich hun (gweler y syniadau ar gyfer hyn isod e.e. undeb credyd, sefydliadau elusennol).

Ffôn: 07717790194 neu 01745 369508

Nodwch: Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i'r holl landlordiaid yng Nghymru gofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru, ac os ydynt yn rheoli eu heiddo eu hunain mae'n rhaid iddynt gael trwydded gan Rhentu Doeth Cymru. Cyflwynwyd y cynllun cofrestru a thrwyddedu gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo i sicrhau safonau da o reolaeth ar gyfer eiddo rhent preifat. Dylech ofyn i'r landlord os ydynt yn drwyddedig wrth ymweld ag eiddo.

Os NAD yw landlord wedi cofrestru yna ni ellir rhyddhau cyllid.

Gallwch gadarnhau bod y landlord yn drwyddedig, neu os yw'r eiddo yr ydych yn dymuno ei rentu wedi'i restru a bod y landlord wedi cofrestru, drwy wiriad ar-lein ar y wefan:

www.rentsmart.gov.wales

Beth yw Undeb Credyd a sut allan nhw fy helpu?

Undeb Credyd yw banc cymunedol sy'n gallu ystyried benthycia i rai sydd â chyfrif gyda nhw, sy'n talu'n rheolaidd i'r cyfrif ac sydd heb fenthyciad gyda nhw eisoes. Efallai y gallant fenthycia hyd at £500 i chi gydag ad-daliadau rhesymol. Mae Cangen agosaf Undeb Credyd Cambrian ar Conway Road, Cyffordd Llandudno, Ffôn: (01492) 580028. Gellir agor cyfrif mewn 7 diwrnod.

A oes unrhyw elusennau sy'n gallu helpu?

Os ydych chi neu aelod o'ch teulu yn aelod o broffesiwn / wedi bod yn aelod o broffesiwn sydd wedi sefydlu cronfa llesionol, efallai y gallant eich cynorthwyo. I gael gwybod mwy, bydd angen mynediad i'r rhyngwyd, a gallwch wneud hyn yn eich llyfrgell leol am ddim. Gallwch gael cymorth gan y llyfrgellydd. Y wefan yw www.joblinks.org.uk – ACO (Cymdeithas Swyddogion Elusen), neu ffoniwch Turn2US ar 0808 802 2000.

A oes dulliau eraill o gael arian er mwyn symud?

- Os ydych chi mewn undeb llafur neu'n aelod wedi ymddeol, efallai y gallant eich cynorthwyo os oes gennych galedi ariannol ac /neu eich bod ar fin bod yn ddigartref. Cysylltwch â'ch undeb i gael rhagor o wybodaeth.
- Os ydych wedi'ch cyflogi, efallai gall eich cyflogwr roi cyflog i chi ymlaen llaw.
- A ydych chi'n gallu benthycia arian gan ffrindiau/teulu?
- Gwerthu eiddo diangen: ebay, cyfryngau cymdeithasol, Marketplace
- Ystyriwch y cyngor ar ein taflen ffeithiau cyllidebu er mwyn lleihau eich gwariant a'ch helpu i arbed arian.
- Os ydych eisoes yn derbyn Budd-dal Tai ar gyfer eich cartref presennol, efallai y byddwch yn gymwys i wneud cais am Daliad Tai Dewisol naill ai ar gyfer rhent neu flaendal ymlaen llaw, neu i ychwanegu at eich taliad rhent os nad yw'r Budd-dal Tai yn talu am bopeth. I wneud cais, cysylltwch ar (01492) 576491 neu gwnewch gais ar-lein ar y wefan isod.
- Mae'n bosibl eich bod yn gymwys am gymorth ariannol gan y gronfa Cymorth Dewisol





the **Money
Advice Service**

<https://www.moneyadvice.service.org.uk>



<https://beta.gov.wales/discretionary-assistance-fund>



Dewis Cymru yw'r lle i gael gwybodaeth am les yng Nghymru. Os hoffech wybodaeth all eich helpu i feddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi, ynghyd â gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau lleol a all helpu, gallwch fynd i wefan Dewis Cymru ar www.dewis.wales.

Gall y wefan eich cynorthwyo i gael mynediad at wasanaethau cefnogaeth lleol a chanfod gwybodaeth a chynghor. Mae'n bwynt mynediad sengl, clir a dibynadwy.

This document is also available in English.

Fersywn 2 Ionawr 2020





Fersywn 2 Ionawr 2020